**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Eich cyf: WQ89688
Ein cyf/WQ89688

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

21 Rhagfyr 2023

Annwyl Adam

Fe wnes i addo ysgrifennu yn rhoi ateb cynhwysfawr i'r cwestiwn a gyflwynwyd gennych yn ddiweddar:

Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gyfraddau staff i fyfyrwyr ym mhob un o brifysgolion Cymru a beth yw'r tueddiadau fesul prifysgol ers 2018? (WQ89688)

Dylid bod yn ofalus wrth archwilio'r data hyn ar lefel sefydliad gan y bydd cymarebau staff:myfyrwyr yn amrywio am lawer o resymau dilys, gan gynnwys natur a chymysgedd pynciau'r ddarpariaeth. Er enghraifft, gall cymarebau gael eu heffeithio gan ddarpariaeth dysgu o bell/ar-lein neu ddarpariaeth freiniol, lle mae myfyriwr wedi'i gofrestru mewn sefydliad addysg uwch ond bod y staff yn gweithio i bartner sefydliad addysg bellach. Dylid nodi mai un elfen yn unig o'r hyn sy'n cyfrannu at ansawdd profiad y myfyriwr yw cymarebau myfyrwyr a staff, ac ni ddylid eu hystyried heb gyd-destun. Mae gan CCAUC fframwaith asesu ansawdd i sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch yng Nghymru yn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr. Mae hyn yn ystyried ystod o ddata a gwybodaeth, yn ogystal ag adolygiad allanol cylchol rheolaidd gan academyddion a myfyrwyr, gyda'r nod o sicrhau ansawdd.

Mae'r tabl canlynol yn dangos cymhareb staff:myfyrwyr prifysgolion Cymru.

| **Enw'r darparwr** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** |
|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 16.8 | 16 | 15.6 | 14.9 |
| Prifysgol Bangor | 15.7 | 15.9 | 15.1 | 17.1 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 18.1 | 18.5 | 18.1 | 18.9 |
| Prifysgol Caerdydd | 14.3 | 13.7 | 14.5 | 13.9 |
| Prifysgol Glyndŵr | 19.4 | 21.9 | 24.9 | 22.4 |
| Prifysgol Abertawe | 15 | 14.8 | 16.2 | 15.9 |
| Prifysgol De Cymru | 15.1 | 15.5 | 16.1 | 16.6 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 16.3 | 18.8 | 21.1 | 20.3 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad CCAUC drwy Heidi Plus. Ffynhonnell data arian o'r enw "HESA Student Staff Ratios by provider (SSRs) v1"

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

https://www.hefcw.ac.uk/en/regulation/quality/

Rhan o ddiffiniad HESA o gymhareb Staff:Myfyrwyr: Nod y gymhareb staff:myfyrwyr yw dangos cyfanswm nifer y myfyrwyr fesul aelod o staff addysgu academaidd. Cyfrifir y gymhareb ar sail nifer y myfyrwyr a nifer y staff sy'n gyfwerth ag amser llawn.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language